# PERTHYN

MAWRTH 2026 Rhifyn 345



Un o luniau arbennig Amelia Davies

# Gair y Gweinidog

Siop Tanyfron, ac mi roedd yna Siop Tanyfron yn y rhan fwyaf o bentrefi Cymru! Annoeth fyddai manylu, digon yw dweud bod yno siop a phwmp petrol, pwmp paraffin a Swyddfa Bost, ac yn wythnosol fe fyddai mam yn mynd i nôl ei Phensiwn Gwraig Weddw, yn prynu y peth yma a’r peth arall ac yn dychwelyd gartref. Ac fe ddaeth ‘Kwik Save’ i Borthmadog, ac fe newidiodd pethau. Fe fyddai yna Fws Mini yn teithio o’r pentref bob nos Wener, a mam yn dychwelyd gyda hanfodion yr wythnos, ac ambell i beth newydd! Ymhen amser fe ddaeth ‘Kwik Save’ i Bwllheli a rhyw hanner, hanner fydda hi; cefnogi Siop Tanyfron a thaflu’r rhwyd ymhellach! Anodd os nad amhosibl i blant a phobl ifanc heddiw yw dychmygu a deall arferion ddoe, a phan fyddai’n siarad am Siop Tanyfron mae’r ymateb wastad yn gymysgedd o ddiddordeb a diffyg dealltwriaeth. Mae pethau wedi newid a dim yn fyw na natur cymunedau, gyda’r union bethau oedd yn cynnal, bellach yn diflannu! Siopau, ysgolion, tafarndai, capeli ac eglwysi. Fe ddechreuodd hyn yn y chwedegau yn yr ardal ble y ces fy magu a hynny gyda cau ysgolion, Llannor, Llithfaen a Boduan gan ganolbwyntio ar ysgol Pentreuchaf, sy’n dal i darparu addysg safonol ac eang. Ymhen amser fe ddaeth Siop Tanyfron i ben, ac yn ddiweddar, y capel, un o gapeli cynharaf y Methodistiaid Calfinaidd yn Llŷn. Diolch fod yr ysgol yn dal yno ac yn ganolbwynt i fywyd cymunedol yr ardal ond beth am yr ardaloedd ble mae popeth wedi diflannu!

Nid dyma’r lle i fanylu na doethinebu, digon yw gofyn cwestiwn ynglyn â natur cymdeithas, pa fath o gymdeithas mae rhywun yn ei ddymuno heddiw a sut mae cynnal y gymdeithas honno?

Mae pethau’n newid a dwi’n sylweddoli hynny o’r newydd yn y cyd-destun crefyddol, Cristnogol. Ymhen yr wythnos fe fyddaf yn dychwelyd i Groesoswallt, i lywyddu gwasanaeth datgorffori un o’r eglwysi cyntaf i mi ei gwasanaethu. Fe fydd yn brofiad chwerw felys, dirwyn achos i ben sydd â’i wreiddiau yn ymestyn yn ôl i’r flwyddyn 1813, tros 200 o flynddoedd o addoli, cymdeithasu a gwasanaethu,

bellach wedi dod i ben. Fe fydd y dystiolaeth Gymraeg yn parhau yn mywyd Capel Horeb, Yr Eglwys Wesleaidd a da deall hynny. Sefyllfa unigryw oedd ac yw sefyllfa Cymry Croesoswallt; tros y ffïn yn Sir Amwythig, yn gymysgedd o bobl gwreiddiol y dref a'r ardal, ynghyd â phobl Siroedd Mawldwyn a Dinbych a'r cyfan yn ffocws bersonol i'r sylweddoliad fod pethau'n newid. Wrth i ffordd o fyw newid, felly ffordd o gredu a chrefydda!
A dwi'n meddwl llawer am hynny y dyddiau yma. Tuedd naturiol yng ngwyneb unrhyw newid yw encilio, am ei fod yn hawsach! Y term sy'n cael ei ddefnyddio yw'r term 'siege mentality', ceidwadaeth crêd a cheidwadaeth ffordd o grefydda. I gymharu â heddiw, bywyd gwahanol iawn oedd bywyd capel 1992 ac fe fyddai'n dragwyddol ddiolchgar am y math yna o fywyd ond bywyd sydd wedi colli gafael ar ddychymyg a dealltwraeth cymdeithas heddiw. Tra mae yna berygl mewn gollwng gafael yn y cyfan a'r perygl pellach o fod yn haerllug yn ein agwedd tuag at y gorffennol, ar y llaw arall, mae'n rhaid dysgu byw o'r newydd a hynny er mwyn sicrhau bod y 'sibrydion am Dduw' yn dal i gael eu clywed yn ein cymdeithas. A'r cwestiwn dwi'n gofyn i mi fy hunan yw, 'ydw i'n barod am hyn', 'ydw i eisiau dilyn llwybrau fydd yn galw am aberth a theimladau gwahanol, newydd, anodd ar adegau?' Dwi'n ddyddiol yn gofyn y cwestiynnau hynny, yn ddyddiol yn chwilio am atebion, ac os dwi'n onest, eto i'w hateb!
Un peth sy'n glir yn fy meddwl yw fod yna gyfrifoldeb i ymateb, a hynny heddiw, ac i mi, y ddealltwriaeth o weddi ac ewyllys Duw.

Dydd Gŵyl Dewi bendithiol i chi gyd!

Eifion.

# NEWYDDION

## Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mair Griffiths a Ieuan Jones a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion hefyd at y rhai sydd wedi dychwelyd adref wedi cyfnod yn yr ysbyty ac at y rhai sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi gofal ac yn eu cartrefi eu hunain

## Derbyn yn gyflawn aelod

Ar fore Sul, Chwefror 1af derbyniwyd Owain a Hawys Roberts yn aelodau yn y gwasanaeth oedd o dan arweiniad ein Gweinidog. Estynnwn groeso cynnes iawn iddynt eu dau ac i Erin a Beca sydd eisoes yn fawr eu cyfraniad i'r Clwb Sul a'r Grwp Ieuenctid.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn, yn ddwys â Mrs. Mary Evans ar farwolaeth ei mab, Huw oedd yn byw yng Ngoginan. Cydymdeimlwn hefyd â Llew a Lowri, plant Huw a'i frawd Geraint a'r teulu oll yn eu colled.
Mae Mary wedi dychwelyd adref erbyn hyn ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty ac yna ar ward Bwa. Anfonwn ein cofion ati.

Cydymdeimlwn â Owain a Dylan Evans ar farwolaeth eu tad, sef Mr. Glyn Evans, Ffordd Caradog. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Morfa pryd y talwyd teyrnged i gyfraniad Glyn i Beicio Cymru. Bu hefyd yn ddosbarthwr ar gyfer yr Angor ac yn Ysgrifennydd y Clwb Pêl droed.

BYDD COFFAD YN DILYN YN RHIFYN EBRILL

## Eisteddfodau Ysgol Penweddig a'r Ysgol Gymraeg

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n brysur yn paratoi ar gyfer gwahanol gystadlaethau ac yn cystadlu yn yr Eisteddfodau.
Llongyfarchiadau i Beca ar ennill Coron Eisteddfod Yr Ysgol Gymraeg ac i Cadi ar ennill y tlws am y perfformiad gorau (ar y delyn).
Dymunwn yn dda i bawb fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn ystod mis Mawrth

# SULIAU A BLODAU

BLAENOR Y MIS: Wyn Hughes

## SULIAU

1 Mawrth – Oedfa Pared Gŵyl Dewi – Eifion Roberts - MORLAN
8 Mawrth – Meirion Morris
15 Mawrth – Eifion Roberts (Cymun)
22 Mawrth – Dafydd Tudur
29 Mawrth – Eifion Roberts

## BLODAU

1 Mawrth – Eleri Davies a Mair Griffiths
8 Mawrth – Bethan Bryn
15 Mawrth – Dilys Hughes
22 Mawrth – Janet Sutton ac Anna Williams
29 Mawrth – Beti a John Roberts


# Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd

Mawrth 6ed am 2 o'r gloch yn Festri Bethel

Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd: Rhoddaf orffwys i chi, dewch

Gwasaneth wedi ei lunio gan ferched Cristnogol o Nigeria

Croeso cynnes i bawb.



# AMBELL EMYN

## A hithau'n fis Mawrth

Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri,
y winllan wen a roed i'n gofal ni;
d'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
a boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O crea hi yn Gymru ar dy lun.

O deued dydd pan fo awelon Duw
yn chwythu eto dros ein herwau gwyw,
a'r crindir cras dan ras cawodydd nef
yn erddi Crist, yn ffrwythlon iddo ef,
a'n heniaith fwyn â gorfoleddus hoen
yn seinio fry haeddiannau'r addfwyn Oen.

**Lewis Valentine 1893 – 1986**

Derbyniodd Lewis Valentine gais i ysgrifennu emyn ar gyfer tôn Jean Sibelius 'Finlandia' (687), ac mae'n debyg iddo fod yn bendant o'r farn mai geiriau gwladgarol fyddai'n gweddu i ganu arni. Y mae'r emyn hwn yn llwyddo i osod gwladgarwch o fewn cyd-destun ein ffydd. 'Gweddi dros Gymru' yw'r teitl a roddwyd ar yr emyn ac mae wedi tyfu i fod yn anthem genedlaethol grefyddol, gan ddisodli i raddau emyn Elfed, 'Cofia'n gwlad Benllywydd tirion' (827). Fe'i cyhoeddwyd am y tro cyntaf yng nghofnodolyn y Bedyddwyr, *Seren Gomer* (Haf 1962), cylchgrawn yr oedd Lewis Valentine yn olygydd arno ar y pryd. Cynhwyswyd yr emyn mewn casgliad am y tro cyntaf gan y Bedyddwyr, yn *Mawl yr Ifanc* (1968). Diddorol yw sylwi fod yr ail bennill fwy neu lai wedi'i gyhoeddi mewn rhyddiaith cyn i'r emyn

weld golau dydd a hynny yn Nodiadau'r Golygyddol yn Seren Gomer, Gaeaf 1953.

Dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad fyddo'n ein plith;
dyro dy gariad i Gymru,
bendithion gwasgar fel gwlith:
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

Mewn byd o newyn a thristwch
dysg i ni rannu pob rhodd,
mawr yw dy gariad di atom,
dysg i ni garu'r un modd :
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

Gwna ni yn lampau d'oleuni
lle byddo t'wyllwch a thrais,
gwna ni'n gyhoeddwyr dy obaith
fel clywo'r bobloedd dy lais:
dysg inni ddeall o'r newydd
holl ystyr cariad at frawd;
dyro dy gariad i'n clymu,
dy gariad di.

**1 DAVE BILBROUGH, cyf. CATRIN ALUN**
**2, 3 SIÔN ALED**

Cywaith gan dri emynydd yw'r emyn hwn. Cyfieithiad o gân un pennill Dave Bilbrough, 'Let there be love shared amoung us', yw'r bennill gyntaf. Lluniwyd y pennill Saesneg yn 1978 a chyhoeddwyd trosiad Cymraeg Catrin Alun ohono yng nghasgliad Mudiad Ieuenctid yr Annibynwyr*, Iddo Ef* (1982) Wedi hynny awgrymwyd wrth Sion Aled y dylid ychwanegu penillion at y cyfieithiad, er mwyn cyfaddasu'r gân i'r sefyllfa ar y pryd, sef bygythiad arfau niwclear yr 1980au. Cyhoeddwyd yr emyn yn ei gyfanrwydd ac yn ei ffurf bresennol yn *Ti Biau'r Goron* (1986), casgliad dyblygiedig at ddefnydd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Bangor, ac yna yn *Grym Mawl* (1991)



# NEWYDDION EBENESER

Anfonwn ein  cofion a'n dymuniadau gorau at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi.

# GWASANAETHAU MIS MAWRTH

Gyda dyfodiad mis Mawrth edrychwn ymlaen yn fawr at ddyfodiad y Gwanwyn gan obeithio y bydd y tywydd wedi gwella erbyn hynny.

Mawrth 1af Gwasanaeth Cymun am 2.15. o'r gloch

Mawrth 15 Gwasanaeth am 2.15.

Mawrth 29 (Sul y Blodau). Gwasanaeth am 2.15

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein Gweinidog Y Parchedig Eifion Roberts.

# Y GYMDEITHAS

## Ma' Ifan 'ma

Go brin bod angen cyflwyno gwestai Cinio Gŵyl Dewi Cymdeithas y Morfa eleni sef Ifan Gruffydd, y digrifwr o Dregaron. Wedi cawl a phwdin blasus wedi'u gweini gan Nerys a'r criw yng Ngwesty'r Marine, braf oedd clywed am y dylanwadau ar Ifan. Gydol ei oes, er teithio i ddiddanu a recordio fan hyn a fan draw, mae e wedi aros ym mro ei febyd yn Nhregaron ac mae'r ardal honno wedi dylanwadu'n drwm arno. Cafwyd nifer o straeon am ddyddiau ysgol ond heb os y dylanwad pennaf arno oedd y Clwb Ffermwyr Ifanc lleol. Petai'r offeiriad lleol, y Parchedig Gareth Jones, ddim wedi gofyn iddo actio gwas fferm mewn drama efallai na fyddai gyrfa Ifan ar lwyfan wedi blodeuo o gwbl. Tan yn 18 oed doedd e erioed wedi perfformio ond

wedi’r cyfnod hwnnw dyma ddrysau di-ri yn agor i’r Ifan ifanc. Cyd-ddigwyddiad llwyr yn ystod y noson, ac yntau yn blentyn heb deledu yn unigeddau Tregaron, oedd iddo sôn am ddylanwad cylchgronau ei blentyndod arno – yn eu plith Hwyl o dan olygyddiaeth Ifor Owen, Llanuwchllyn sef tad Gareth a oedd yn bresennol yn y cinio.
Hiwmor ysgafn sy’n dod i’r meddwl wrth glywed yr Ifan ffraeth yn traethu ond dyw bywyd ddim wastad wedi bod yn fêl i gyd. Yn ei ugeiniau fe ballodd iechyd Ifan am flynyddoedd a bu am wythnosau ym Mronglais – ac yn ystod y noson diolchodd i’r llawfeddyg John Edwards am driniaeth lwyddiannus. Cyfeiriodd hefyd at brofiad arbennig arall a gafodd yn Aberystwyth sef gwrando ar bregeth gan y cyn-feddyg o Harley Street - y Parchedig Martyn Lloyd Jones a dyna ddechrau ar daith ei ffydd ysbrydol.
Diolch Ifan am ddod atom a theg dweud fod pawb i weld wedi mwynhau - wedi cael bwyd da, wedi chwerthin ond hefyd wedi cael cipolwg arall ar y digrifwr diffuant o Dregaron.







# Donald a'i flodau

Roedd yna sylw arbennig i gennin Pedr yn y gymdeithas ddechrau Chwefror hefyd wrth i Donald Morgan, Blodau'r Bedol ddod atom i'n diddanu. Mae'n siŵr bod nifer wedi meddwl beth yw hoff flodyn y gosodwr a'r gwerthwr blodau o Lanrhystud – wel cennin Pedr. Go brin bod neb yn fwy cyfarwydd â fâs flodau Capel y Morfa na Donald – mae e'n gyson yn gosod blodau ynddi ar ran y gynulleidfa. Yn ystod y noson cafwyd blas ar ei lwyddiannau niferus yn sioeau Llanelwedd, Malvern, Chelsea ac eraill.
Mae bro ei febyd yn bwysig i Donald hefyd ac mae wedi trefnu nifer o gyngherddau i godi arian at achosion lleol. Ydi mae blodyn, fel y dywedodd Donald, yn codi calon ac yn lleddfu pryderon a dyna wnaeth Donald hefyd yn festri'r Morfa ynghanol llwydni a gwlybaniaeth Chwefror.



Sara Jenkins, o gwmni Llaeth Teulu Jenkins, Tal-y-bont fydd ein gwestai nesaf ar y 9fed o Fawrth. Croeso i bawb.

# CYMORTH CRISTNOGOL

## CINIO BARA A CHAWS

Cynhelir Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yng Nghanolfan Byddin yr Iachawdwriaeth ddydd Llun, 2 Mawrth rhwng 12.00 a 1.30pm.

Croeso cynnes i bawb

## CLWB SUL

Yn dilyn cyflwyno hanes Samuel aethom ymlaen at hanes brenin cyntaf Israel sef Saul ac yna Dafydd, y bugail, y bardd a'r brenin. Arweiniodd cenfigen Saul tuag at Dafydd at gyfeillgarwch rhwng Dafydd â Jonathan, mab Saul, a datganiad Jonathan "byddwn yn ffrindiau am byth"
Buom yn trafod sut y dylem ymddwyn tuag at ein ffrindiau a'r hyn na ddylem ei ddweud na'i wneud.

Wrth edrych ymlaen at y Pasg ac at glywed hanes Iesu yn gorymdeithio i Jeriwsalem ar gefn ebol asyn, buom yn clywed am daith yr Israeliad drwy'r anialwch ac am Arch y Cyfamod a gludwyd ganddynt. Dymuniad y brenin Dafydd oedd cael cartref i Arch y

Cyfamod a’i drysorau yn y deml a fyddai’n cael ei hadeiladu yn Jeriwsalem.


Fel cyflwyniad, ac ar drothwy Dydd Gwyl Dewi, rhestrwyd ein trysorau ni fel Cymry gan gyfeirio at Y Llyfrgell Genedlaethol sydd yn gartref iddynt.

Mae’r lluniau yn cofnodi’r gweithgareddau
















Dafydd a Jonathan - ffrindiau am byth
BROLIO
CEFNOGOL
Cariad


Dafydd a Jonathan - ffrindiau am byth



garedig
gas
ffyddlon
Onest
Caredig
bwlio










# Cynllun Chwarae a Chredu - Cyflwyniad Cass Meurig

Bu Catherine ac Eleri ar gwrs hyfforddiant gan Cass Meurig yn Adeilad Medrus, Coleg y Brifysgol. Roedd Cass Meurig yn cyflwyno hanes Taith Abraham gan ddefnyddio tywod a gwrthrychau fel rhubanau, cymeriadau a blociau pren i'w gosod yn y tywod wrth adrodd hanes y daith a phawb mewn cylch yn gwrano ar y stori ac yn dilyn y daith. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r cynllun yn dwyn pawb i mewn. Pa ran o'r stori oeddech i'n hoffi oeddech chi ddim yn ei hoffi? Pa ran o'r stori oedd yn bwysig? Ble oeddech chi'n gweld eich hunan yn y stori?

Ar Sul cynt af y Grawys cyflwynwyd hanes Iesu yn yr anialwch am 40 diwrnod gan ddefnyddio'r un dull. Roedd yr ymatebion yn ddiddorol - tynnwyd sylw at y dewisiadau ac at mor hawdd yw hi i gael eich temtio a gorfod sefyll yn gryf a gwneud y dewis cywir,
Cafodd pawb fwynhau crempog Owain, Menai a Gwenan ar y diwedd.

## COFIWCH:

- Y Gymdeithas

Nos Lun, 9 Mawrth am 7.00 o'r gloch – Llaeth Jenkins yng nghwmni Sara Jenkins
Nos Lun, 23 Mawrth am 7.00 o'r gloch – noson yng nghwmni Dr Stephen Rees, Prifysgol Bangor



# GWEDDIWN

Ein Cenedl a'i Phobl

Gweddïwn, Arglwydd, dros ein cenedl a'i phobl:
dros ein cymdogaethau, ein trefi a'n pentrefi;
dros ein cartrefi a'n bywyd teuluol;
dros ein hysgolion, ein colegau a'n pobl ifanc;
dros sefydliadau cyhoeddus, gwleidyddion a chynghorwyr;
dros ddiwydiannau a'u gweithwyr;
dros gefn gwlad a phawb sy'n trin y tir;
dros y cyfryngau, cynhyrchwyr a darlledwyr;
dros fudiadau diwylliannol, llenorion a beirdd;
dros ysbytai, meddygon a chleifion;
dros bawb sy'n gweinyddu'r gyfraith;
dros y tlawd, y digartref a'r di-waith;
dros ein heglwysi a'u cynulleidfaoedd,
a thros ledaeniad dy deyrnas yn ein plith:
'Rhag pob brad, nefol Dad,
taena d'adain dros ein gwlad.'

Amen

(Golygydd allan o Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

**GOLYGYDDION Y MIS HWN** – Eifion ac Alwen

**GOLYGYDDION MIS EBRILL** – Eifion ac Alwen

Dyddiad Cau – 21 Mawrth

eifionroberts095@btinternet.com

eifion.roberts@ebcpcw.cymru